



Pobl ifanc yn mwynhau'r parc sglefrio newydd ym Mharc Aneurin, Pen-yr-heol

Diweddariad Gwelliannau Amgylcheddol SATC

Fel rhan o raglen Gwelliannau Amgylcheddol Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), mae cymunedau ledled y Fwrdeistref Sirol yn parhau i gael eu trawsnewid.

Ariennir y rhaglen SATC trwy'r prif Gyfrif Refeniw Tai, sy'n cynnwys incwm rhent tenantiaid yn bennaf. Mae yna reoliadau llym sy'n llywodraethu sut mae'r arian hwn yn cael ei wario i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio er budd tenantiaid a'r ardaloedd y maent yn byw ynddynt. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â thrigolion ledled y Fwrdeistref Sirol i gael gwybod yr hyn yr hoffent ei weld yn cael ei wella yn eu hardaloedd. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i sicrhau mai'r tenantiaid sydd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ynghylch pa welliannau a wneir i'w cymuned leol.



EICH CARTREFI, EICH DYFODOL
YOUR HOMES, YOUR FUTURE

Dyweddodd nifer fawr o'n tenantiaid eu bod am weld gwelliannau i gyfleusterau chwarae awyr agored ledled y Fwrdeistref Sirol. Ym mis Hydref, lansiwyd parc sglefrio a champfa awyr agored newydd ym Mharc Aneurin, Pen-yr-heol, ynghyd â gwelliannau i'r ardal chwarae bresennol i blant.


Yn ne Caerffili, nid Pen-yr-heol yn unig a fydd yn gweld buddsoddiad mewn ardaloedd chwarae. Y mis hwn, mae'r contract ar gyfer gwella parciau chwarae ym Mharc Lansbury, Trecenydd ac Abertridwr wedi cychwyn. Bydd hyn yn darparu offer chwarae awyr agored newydd gwerth £130,000 ar gyfer y cymunedau hyn.

Ym mis Mehefin dyfarnwyd contract i gyflenwi offer chwarae newydd gwerth £187,000 yng ngogledd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Fel rhan o'r contract hwn, mae gwaith gwella'r Parc Coffa yn Rhymni ar y gweill, a bydd gwaith

i barciau ym Mhontlotyn a Threffilip yn dechrau'n fuan. Bydd Aberbargod, Fochriw ac Ystâd Parc Gilfach hefyd yn cael mantais o offer chwarae newydd, yn ogystal â champfeydd awyr agored newydd.

Mae yna lawer o ardaloedd yn y fwrdeistref sirol lle mae ymgynghoriadau ar waith o hyd er mwyn i chi gael cyfle i ddweud eich dweud. Mae'r ymgynghoriadau ar gyfer Heol Claude, Persondy, Westend, Oakdale a Rhisga yn weithredol ar hyn o bryd, felly cysylltwch â ni i roi eich barn.

Mae'r ymgynghoriadau yn dod i ben ym Medwas, Maes-y-cwmwr, Markham a Chefn Fforest, ond os oes gennych unrhyw gynigion ar gyfer yr ardaloedd hyn mae gennym amser o hyd i'w hadolygu, er y bydd angen i chi gysylltu â'n tîm penodedig o Swyddogion Amgylcheddol SATC yn uniongyrchol ar 01443 864398 / 864002 / 864291.



Y Cyngorwyr Carl Cuss, David Harse a John Bevan yn ymweld â'r gwaith yn yr ardal chwarae i blant yn y Parc Coffa, Rhymni.

SATC - Buddion Cymunedol

Yma yn y Cyngor, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y buddsoddiad gwerth £260 miliwn yn rhaglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn cael ei ddefnyddio i sicrhau buddion ehangach o lawer i denantiaid a chymunedau lleol.



Aelodau o glwb Dros 50 oed yng Nghanolfan Gymunedol y Fan yn defnyddio'u cadeiriau newydd a roddwyd gan Robert Price.

Rydym yn gweithio gyda chyflenwyr a chontractwyr sy'n helpu i gyflawni ein rhaglen SATC i sicrhau bod y buddsoddiad a wnawn gyda nhw hefyd yn cael ei ddefnyddio i helpu cymunedau lleol.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae ein partner cyflenwi ffynhonnell sengl, Robert Price Builders' Merchants, ac ENGIE, un o'r contractwyr a benodwyd i helpu i gyflawni gwaith gwella SATC wedi cefnogi nifer o brosiectau.

Dros yr haf, rhoddodd Robert Price offer i ddisgyblion blwyddyn 10 o Ysgol Gyfun Coed Duon i'w galluogi i blannu amrywiaeth o flodau lliwgar, wedi'u rhoi gan ENGIE, ar Heol Bloomfield, Coed Duon. Cadwodd yr ysgol yr offer i'w defnyddio ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Yn fwy diweddar, rhoddodd Robert Price gadeiriau newydd sbon i grŵp dros 50 oed Caerffili yng Nghanolfan Gymunedol y Fan. Mae gan y cadeiriau freichiau er mwyn helpu'r rheini sydd â phroblemau o ran symudedd ac sy'n dymuno cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gweithgareddau yn y Ganolfan.

Derbyniodd Grŵp Trigolion Cwrt Trevelyan roddion hefyd, a oedd yn cynnwys compost, llwyni, planhigion a bylbiau, a derbyniodd Rhandiroedd Ward y Fan gerrig mân gan Robert Price er mwyn creu llwybr hygrych newydd. Mae ENGIE hefyd wedi darparu nifer o fuddion lleol eraill gan gynnwys cefnogi menter banc bwyd flynyddol y Cyngor a rhoi offer i gefnogi datblygiad banc offer cymunedol yn Rhisga.



Disgyblion o Ysgol Gyfun Coed Duon yn plannu blodau a roddwyd.



Er mwyn osgoi unrhyw ôl-ffeithiau peryglus a drud y gaeaf hwn, mae nawr yn amser da i feddwl am y ffordd orau i baratoi'ch cartref ar gyfer y misoedd sydd i ddod.

Cadw'n Gynnes

Gall cadw'n gynnes yn ystod y gaeaf fod yn ddrud. Dyma awgrymiadau cost-ffeithiol i insiwleiddio'ch cartref yn gywir rhag oerfel y gaeaf hwn:

- **Defnyddiwch eich llenni** – gwnewch y defnydd orau o wres yr haul. Cadwch eich llenni ar agor yn ystod y dydd er mwyn gadael i olau'r haul wresogi'r ystafell. Pan fydd hi'n tywyllu, caewch nhw'n llawn er mwyn cadw'r gwres yn eich ystafelloedd.
- **Symudwch eich dodrefn** – er y byddai'n well gennych chi fod eich hoff gadair o flaen y rheiddiadur, efallai ei bod yn amsugno'r gwres a ddylai fod yn cynhesu'ch cartref. Cewch y defnydd gorau o'r ffynhonnell wres os nad oes dim yn ei rhwystro. Mae hefyd yn bwysig ystyried yr effaith negyddol ar eich bil gwresogi os ydych chi'n defnyddio rheiddiaduron i sychu'ch dillad. Bydd haen o ddillad sy'n gorchuddio rheiddiadur yn lleihau ei effeithlonrwydd yn sylweddol o ran gwresogi'r ystafell. Defnyddiwch ffrâm ddillad yn lle.
- **Adlewyrchwch y gwres** – mae rheiddiaduron yn tanbeidio gwres i mewn i'ch ystafell, ac i mewn i'r wal sydd tu ôl iddo. Mae modd gosod adlewyrchwyr ffoil y tu ôl i'r rheiddiadur er mwyn helpu atal gwres rhag cael ei golli trwy'r wal drwy adlewyrchu'r gwres yn ôl i mewn i'r ystafell.
- **Cau drysau mewnol** – mae gwres yn codi, felly os bydd drws ar agor gall gwres ddianc o'r ystafell i mewn i'r cyntedd a phen y grisiau.

Paratoi ar gyfer y gaeaf - Pibellau cyddwysiad wedi'u rhewi

Mae pibell gyddwysiad yn cludo anwedd o foeleri cyddwyso nwy modern i'ch draen allanol. Yn ystod cyfnodau hir o dywydd oer dros ben, gall anwedd yn y bibell rewi. Bydd hyn yn arwain at rwystr a fydd yn achosi i'r boeler ddiffodd ac atal y cyflenwad gwres a dŵr poeth. Isod mae rhywfaint o gyngor ar beth i'w wneud os bydd hyn yn digwydd. Canllaw yn unig yw hwn - peidiwch â cheisio'u gwneud os yw'r amodau'n wael neu os nad ydych chi'n teimlo'n ddigon cymwys i'w gwneud. Os felly, ffoniwch ein tîm Gweithredu Atgyweiriadau Tai ar **01443 864886** neu **01443 875500** ebost: dlopbe@caerphilly.gov.uk tu allan i oriau swyddfa.

Sut i ddadrewi'r bibell?

1. Cadarnhau bod y bibell gyddwysiad wedi'i rhewi

Os yw'ch boeler wedi methu o ganlyniad i'r bibell gyddwysiad yn rhewi, fel arfer bydd cod diffyg yn ymddangos ar ddangosydd digidol y boeler neu ddull larwm arall. Ambell waith bydd y boeler yn gwneud sŵn byrlymu.

2. Dod o hyd i'r rhwystr

Mae'n debygol bod y bibell wedi'i rhewi yn ei man mwyaf agored neu lle mae rhywfaint o rwystr i'r llif; efallai pen agored y bibell fydd hyn, neu ar dro yn y bibell. Drwy redeg dwylo ar hyd y bibell, dylech deimlo rhan sy'n oerach na'r gweddill. Dylai hyn eich helpu chi i ddod o hyd i'r rhwystr yn gyflym.

3. Dadrewi'r bibell

Mae modd dadrewi'r bibell drwy osod potel dŵr poeth, pecyn gwres o'r ficrodon, neu glytiau wedi'u gwlychu â dŵr twym i ochr allanol y bibell yn agos at y rhwystr. Mae modd hefyd arllwys dŵr twym ar y bibell gan ddefnyddio can dŵr neu gynhwysydd arall - peidiwch â defnyddio dŵr berw. Peidiwch â cheisio dadrewi pibell gyddwysiad nad oes modd ei gyrraedd yn hawdd o'r llawr. Cofiwch y gall unrhyw ddŵr sy'n gollwng rhewi yn gyflym ar lwybrau, gan achosi perygl o lithro.

4. Ailddechrau eich boeler

Unwaith y bydd y rhan wedi dadrewi a'i chlirio, gwiriwch lawlyfr eich boeler ar gyfer cyfarwyddiadau ar sut i ailosod y boeler yn gywir. Dylai eich boeler ailddechrau bellach. Os na fydd eich boeler yn ailddechrau, bydd angen i chi ffonio'r tîm Gweithredu Atgyweiriadau Tai.

Sut i atal y bibell gyddwysiad rhag rhewi

Os nad yw'r bibell gyddwysiad eisoes wedi'i insiwleiddio, lapiwch hen dywelion o amgylch y bibell yn syth er mwyn ei hatal rhag rhewi eto. Yn ystod amodau tywydd eithriadol, efallai na fydd dulliau ynysu cywir yn ddigon i atal y bibell gyddwysiad rhag rhewi. Efallai y bydd o gymorth i redeg eich boeler gyda'r thermostat wedi'i osod mor uchel â phosibl cyhyd ag y bydd y cyfnod oer yn para. Os ydych chi'n parhau i gael problemau, y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â'r tîm Gweithredu Atgyweiriadau Tai i gael cymorth.



Adnewyddu Pàs Bysiau

O fis Medi, mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda chynghorau ledled Cymru er mwyn cyhoeddi 750,000 o Gardiau Teithio Rhatach newydd. Y dyddiad terfyn ar gyfer hyn yw diwedd mis Rhagfyr 2019.



Bydd y rhain yn disodli'r holl pasiau bysiau gwyrdd cyfredol ledled Cymru, er y bydd yr un hawliau a buddion teithio am ddim yn parhau pan roddir y cardiau newydd. Anogir

trigolion i gyflwyno cais am eu cerdyn newydd mewn digon o amser i sicrhau y gallant barhau i dderbyn y buddion teithio rhatach. Fydd y 'pasiau bysiau' gwyrdd cyfredol ddim yn ddilys ar ôl **31 Rhagfyr 2019** ar fysiau ledled Cymru.

Er mwyn cyflwyno cais, dylai trigolion (neu rywun y maen nhw'n ymddiried ynddo) fynd i www.tfw.gov.wales/cy/cerdynteithio gyda'r wybodaeth ganlynol:

- Y rhif hir sydd wedi'i argraffu ar flaen eich pàs bysiau gwyrdd.
- Eich dyddiad geni.
- Y cod post y mae eich cerdyn cyfredol wedi'i gysylltu ag ef.
- Eich rhif yswiriant gwladol.

Os oes angen cymorth arnoch chi wrth lenwi'r cais, ffoniwch y tîm cymorth ar **0300 303 4240** neu ebost: travelcards@tfw.wales

Gwasanaeth Cymorth Hyblyg Cartrefi Caerffili

➤ **Cymorth Hyblyg Cartrefi Caerffili yw gwasanaeth sy'n eich helpu chi i reoli eich materion a byw mor annibynnol â phosibl.**

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth i bobl o ran cael mynediad at lety eu hunain, a'u cynnal a'u rheoli, wrth ddatblygu neu gynnal y sgiliau angenrheidiol i fyw mor annibynnol â phosibl.

Mae ein Swyddogion Cymorth Hyblyg wedi derbyn hyfforddiant arbennig er mwyn darparu help a chynghor i bobl yn eu cartrefi eu hunain, p'un a yw hyn ar sail tymor byr neu'n hwy. Bydd cynllun rhyngoch chi a'r Swyddog yn cael ei lunio i ddiwallu anghenion penodol pob unigolyn.

Mae'r gwasanaeth ar gael i unrhyw berson dros 16 oed ac ar draws unrhyw ddeiliadaeth sydd angen cymorth sy'n gysylltiedig â thai.



I gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwn ni helpu, cysylltwch â Thîm Cymorth Hyblyg Cartrefi Caerffili ar **01443 811425** neu drwy e-bostio: CymorthHyblyg@caerffili.gov.uk

Profion Trydanol Cyfnodol

Mae ein tîm Gweithredu Atgyweiriadau Tai yn cynnal rhaglen o brofion trydanol cyfnodol. Mae hyn yn golygu profi'r trydan yn eich cartref er mwyn sicrhau eich diogelwch chi a'ch teulu.

Bydd profion trydanol yn cael eu cynnal pob 5 mlynedd, neu 10 mlynedd ar ôl i gartref gael ei ailweirio. Byddwch chi'n derbyn llythyr yn nodi manylion yr apwyntiad i gynnal y prawf yn eich cartref. Mae'r prawf yn cymryd tua 4 awr. Os na fydd yr apwyntiad yn gyfleus i chi, rhaid i chi gysylltu â ni mor fuan â phosibl er mwyn ail-drefnu'r apwyntiad; fydd dim modd canslo ar ddiwrnod yr apwyntiad ac eithrio mewn sefyllfaoedd brys.

Sicrhewch eich bod chi'n bresennol ar gyfer eich apwyntiad, a bod credyd ar gael ar eich mesurydd trydan. Os ydych chi'n colli'ch apwyntiad, efallai bydd tâl yn cael ei godi.



Atal Anwedd

Anwedd yw achos mwyaf cyffredin lleithder a thwf llwydni.

Gall ddigwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond mae'n gyffredin yn ystod misoedd y gaeaf yn bennaf oherwydd mae systemau gwresogi'n cael eu defnyddio'n fwy aml, bydd ffenestri ar gau a dillad yn cael eu sychu tu fewn.

Gallwch helpu i osgoi anwedd yn eich cartref drwy ddilyn yr awgrymiadau canlynol:

- **Os ydych chi'n sychu'ch dillad y tu mewn, dylid ei wneud mewn ystafell gaeedig gyda'r ffenestr ar agor. Os ydych chi'n defnyddio peiriant sychu dillad, mae'n hanfodol bod y bibell awyru yn mynd tu allan i'r cartref.**
- **Mae anwedd yn fwy tebygol o ddigwydd ar waliau allanol gan eu bod yn oerach. Am y rheswm hwn, dylid cadw dodrefn i ffwrdd o'r waliau.**
- **Dylai ffenestri fod ar agor wrth gael cawod, bath neu goginio er mwyn i'r aer poeth ddianc. Wrth ddefnyddio hob, rhowch gaead ar y sosbenni. Mae hyn yn cadw'r stem i mewn, a gall hefyd arbed arian i chi gan fod yr amser coginio yn fyrrach.**
- **Ceisiwch osgoi sychu dillad ar reiddiaduron gan fod hyn yn cynhyrchu llawer o leithder o fewn cyfnod byr.**

Cadw Caerffili'n Daclus



Mae'r mwyafrif o'n trigolion yn ymddwyn yn gyfrifol wrth fynd â'u cŵn am dro - maen nhw'n codi baw ac yn eu rheoli mewn mannau cyhoeddus. Serch hynny, rydyn ni'n derbyn cwynion am berchnogion cŵn sydd ddim yn ymddwyn yn y ffordd yma.

Nid dim ond fater o lanast hyll a bod yn niwsans i gerddwyr a pherchnogion cŵn eraill, ond gall baw cŵn gludo afiechydon sy'n niweidiol i fodau dynol ac anifeiliaid eraill.

Mae Cyngor Caerffili wedi cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod perchnogion yn glanhau ar ôl eu cŵn a'u cadw o dan reolaeth gyda thennyn. Bydd gan berson 14 diwrnod i dalu Hysbysiad Cosb Benodedig o £100, neu £75 os telir o fewn 7 diwrnod. Erlyniad bydd canlyniad methiant i dalu'r gosb benodedig. Er mwyn osgoi hyn, gofynnir i drigolion i

ufuddhau i arwyddion mewn rhai ardaloedd ac mae'n ofynnol iddynt gario adnoddau priodol i ddelio â gwastraff cŵn. Mae'n hawdd: mewn bag ac mewn bin. Yn ein Bwrdeistref Sirol mae biniau penodol ar gyfer baw cŵn. Serch hynny, hoffem ni bwysleisio bod unrhyw fin yn addas - mae'n well rhoi gwastraff cŵn mewn unrhyw fin sbwriel yn hytrach na'i adael ar y llawr.

Nid dim ond perchnogion cŵn sy'n gallu derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig, ond gall unrhyw un sy'n gollwng sbwriel dderbyn un. Mae gollwng unrhyw fath o sbwriel yn drosedd. Eich cyfrifoldeb chi yw cael gwared ar eich sbwriel mewn modd cyfrifol.

Os ydych chi'n gweld perchennog sydd ddim yn glanhau ar ôl ei gi, neu broblem o ran sbwriel o unrhyw fath yn eich ardal, mae modd i chi rhoi gwybod i ni drwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili neu drwy ffonio'r Tîm Rheoli Gwastraff ar 01443 866533.

Diweddariad ar y Bartneriaeth Gwella Tai

Mae'r Bartneriaeth Gwella Tai (PGT) yn grŵp o denantiaid sy'n gweithio gyda ni er mwyn gwella gwasanaethau tai. Mae'r PGT yn canolbwyntio ar brofiadau gwirioneddol tenantiaid a lesddeiliaid pan fyddant yn gofyn am wasanaeth gan Gartrefi Caerffili ac yn ei dderbyn.

Dyma'r hyn a ddywedoch wrthym am Gymorth Hyblyg: Dywedoch...

"Hoffwn i wybod y byddwch chi yno i'm cefnogi cyhyd ag y bydd arnaf eich angen chi."

"Cyn i chi adael, hoffwn i eich bod chi'n sicrhau fy mod i'n deall beth sy'n digwydd nesaf/yr hyn y gallai fod angen i mi ei wneud."

"Hoffwn i eich bod chi'n rhoi gwybod i mi pryd y byddwch chi'n ymweld â fi nesaf."

Yr hyn a wnaethon ni...

Rydyn ni bellach yn llunio cynllun gweithredu pan fyddwn ni'n ymweld â chi. Mae'n nodi pryd mae'ch apwyntiad nesaf, sut rydyn ni wedi'ch helpu yn ystod yr ymweliad (e.e. cais Taliad Annibyniaeth Personol, wedi ffonio cyflenwr cyfleustodau), a beth fyddwn yn ei wneud nesaf. Mae hefyd yn gadael i chi wybod beth y gallai fod angen i chi ei wneud cyn ein hymweliad nesaf. Bydd y cynllun hwn yn cael ei adael gyda chi fel bod gennych gofnod eich hun.



A fyddai gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r PGT a'n helpu ni i wella gwasanaethau?

Mae sesiynau PGT yn gyfeillgar, yn ddymunol, yn hamddenol ac maen nhw wedi ein helpu i wella gwasanaethau i BOB tenant. Byddwn yn eich helpu os bydd angen cymorth arnoch er mwyn cymryd rhan ac yn talu eich costau trafndiaeth.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid a'r Gymuned drwy ffonio: 01443 811433/ 811434 anfon neges destun 07919 627530 neu anfon e-bost: cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk

Teleofal

Gwasanaeth monitro sy'n cynnig cymorth o bell i bobl a allai fod yn oedrannus, yn anabl neu'n agored i niwed yw Teleofal. Bydd defnyddwyr yn derbyn uned larwm, tlws crog â **BOTWM ARGYFWNG** a monitor **24/7** gan dimau arbenigol. Gall helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth a'u hyder gartref.



Ym mis Chwefror, cynhaliwyd digwyddiad Cyfnewid Gwybodaeth i Denantiaid lle siaradodd ein harbenigwyr Teleofal â thenantiaid am fanteision y gwasanaeth. Darparon nhw lawer o wybodaeth ddefnyddiol, ac wedi dangos pa mor syml oedd y cyfarpar i'w ddefnyddio.

Ar ôl y digwyddiad, gwnaethom recriwtio gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn blaenbrawf er mwyn profi dyfeisiadau Teleofal newydd sydd ar gael. Roedd y Tîm Teleofal eisiau cael dealltwriaeth drylwyr o sut roeddent yn gweithio er mwyn pennu p'un o'r dyfeisiau newydd fyddai fwyaf addas i ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

Digwyddodd y blaenbrawf dros yr haf. Hoffai Cyngor Caerffili ddiolch i'r gwirfoddolwyr – rydyn ni'n ddiolchgar iawn am eich help. Mae'r blaenbrawf wedi rhoi mewnwelediad da i'r staff gosod o ran sut y gallwn ddefnyddio'r offer i helpu ein tenantiaid mewn angen yn llwyddiannus.

Os hoffech chi wybod rhagor am Teleofal, a sut y gallai eich helpu chi, ffoniwch **01443 873663** neu anfon e-bost i **LlinellOfalCaerffili@caerffili.gov.uk**

RHEDEG BUSNES O GARTREF

Bydd nifer o fusnesau bach yn dechrau gartref - gall fod yn ffordd gost-efeithiol i roi eich menter ar waith. Os ydych chi'n ystyried dechrau busnes o'ch cartref y cyngor, bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa dai leol er mwyn gofyn am ganiatâd.

Bellach mae mwy o opsiynau nag erioed o ran dechrau busnes o gartref, yn enwedig gyda'r rhyngwrdd. P'un a ydych chi'n mwynhau pobi neu arlwyio, neu therapi harddwch neu ffitrwydd, gall gweithio o gartref ddarparu ffordd hyblyg ac annibynnol i chi er mwyn gwneud arian. Gall ddarparu cyfleoedd i rieni amser llawn na fyddai ar gael iddynt pe byddent yn gweithio i ffwrdd o'r cartref, a gall hyd yn oed gynnwys eu plant, fel gwarchod plant.

Am ragor o wybodaeth ynghylch rhedeg busnes o'ch cartref, gallwch gysylltu â'n tîm cyngor ar dai drwy fynd ar-lein neu drwy ffonio **01443 873552**

